# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0915(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Tachwedd 2006

**At Nick Bourne:**

Mewn cwestiwn atodol i OAQ0915 wrth Jenny Randerson ar ddydd Mercher, 8 Tachwedd 2006, gofynasoch a oedd ffigurau Cymru gyfan ar gael am y nifer o bobl sydd angen triniaeth a chymorth nad ydynt eto yn gallu cael gwasanaethau. Mae canfod y 'boblogaeth gudd' hon yn bwysig dros ben, ond, fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'n fater cymhleth.

Cytunais i roi adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ond efallai y bydd o gymorth ichi os wyf yn gosod allan sut yr ydym yn taclo'r agwedd bwysig ond anodd hon. Nid oes un ateb, felly yr wyf yn cefnogi ystod o weithgareddau bydd yn cynorthwyo i roi llun mwy cyflawn o raddfa a natur y problemau ynghlwm â chamddefnyddio sylweddau sydd yng Nghymru.

Yn gyntaf, mae'r gronfa ddata Cymreig newydd ar gamddefnyddio sylweddau yn rhoi gwybodaeth werthfawr inni am allu cael triniaeth. Yr ydym hefyd yn cynllunio astudiaethau ymchwil flwyddyn nesaf fydd yn cynnwys amcangyfrif mynychedd ac yn dod i nabod ac ymholi'r rhwystrau i allu cael triniaeth.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae gennym hefyd y wybodaeth sydd yn dod wrth y rhaglen ymyriadau cyffuriau, sydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am unigolion nad ydynt wedi ceisio help o'r blaen. Yr ydym hefyd yn astudio sut y gallem wneud gwell defnydd o wybodaeth o'r y system gofnodion heddlu er mwyn helpu adeiladu'r llun.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0918(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Tachwedd 2006

**At Brynle Williams:**

Yn ystod cwestiynau ar etholaeth Conwy ar 8 Tachwedd, addewais ddarparu gwybodaeth i chi am gynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth o dai gwarchod i gyfarfod anghenion poblogaeth fwyfwy oedrannus yr ardal.

Ymroddwyd yn strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru i hyrwyddo darpariaeth ddigonol o fathau arbennig o dai sydd yn gallu cyfarfod anghenion amrywiol a newidiol pobl hŷn a sicrhau eu bod yn parhau mor annibynnol â phosibl cyhyd â phosibl.

Un o'r ffyrdd o ddod â hyn i'r fei yw drwy ddarpariaeth tai Extracare. Mae cynlluniau Extracare yn darparu fflat annibynnol wedi ei gynllunio ar gyfer anghenion pobl hŷn i bob preswylydd ac mae ystod o gyfleusterau ar gael ar y safle megis prydau twym, salonau ymolchi a thrin gwallt cymorthedig. Mae gofal ar gael wrth dîm ar y safle a gellir amrywio lefel y gofal gan ddibynnu ar anghenion y tenant ar adeg benodol. Awgrymir gan dystiolaeth fod tai Extracare yn gweithio ar gyfer pobl â demensia os yw'r cyflwr yn datblygu wedi iddynt symud i mewn iddynt.

Yn Chwefror 2006, cyhoeddais £41 miliwn dros dair blynedd i ariannu 11 cynllun Extracare ledled Cymru. Bydd y cyfleusterau newydd hyn yn adeiladu ar y rhaglen o wyth cynllun sydd

eisoes yn bodoli. Mae pump ohonynt eisoes wedi eu cwblhau, ac fe'u cefnogwyd gan ariannu gwerth £25 miliwn wrth Lywodraeth y Cynulliad.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygu dau gynllun Extracare, un yn Llanrwst ac un yn Llanfairfechan mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai lleol. Cynhwyswyd yr arian ar gyfer y cynllun yn Llanrwst—a fydd yn darparu 40 fflat—yn fy nghyhoeddiad yn gynharach eleni ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn yn haf was 2007. Bydd yr ail gynllun yn Llanfairfechan yn cynnwys ailddatblygu tai gwarchod awdurdod lleol sydd eisoes yn bodoli neu ddarpariaeth gofal preswyl sydd wedi dyddio mewn cyfleuster Extracare newydd a bydd yn darparu 46 fflat ychwanegol. Mae cefnogaeth i'r cynllun hwn gychwyn yn 2008-09 wedi cael ei roi mewn egwyddor, gan ddibynnu ar gadarnhad o adnoddau cyllid y grant tai cymdeithasol.

Bydd y ddau gynllun hyn yn cyfrannu'n fawr i gynyddu'r ddarpariaeth o dai arbenigol, fforddiadwy i bobl hŷn yng Nghonwy.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0903(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Tachwedd 2006**

**At Janet Davies:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 8 Tachwedd, ymgymerais i ddarganfod argaeledd data ar lefel wardiau mewn perthynas â lefelau tlodi plant yn Abertawe.

Daw'r ffigurau swyddogol yr ydym yn eu defnyddio ar blant yn byw mewn tlodi o ddata yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gartrefi islaw'r incwm cyfartalog. Daw data'r adran o'r arolwg i adnoddau teuluoedd, felly amcangyfrifon ydynt, ond mae'r arolwg yn un mawr a dibynadwy. Cyhoeddwyd y data mwyaf diweddar yn yr adroddiad *Households Below Average Income 1994/5 – 2004/5*. Mae'r ffigurau ar gyfer rhanbarthau daearyddol wedi eu seilio ar y cyfartaledd ar gyfer y tair blynedd 2002/3, 2003/4, a 2004/5 ac mae'r data hyn ar gael ar lefel Gymreig yn unig. Nid oes data swyddogol ar lefel awdurdod lleol neu ward. Fodd bynnag, drwy ymchwil newydd prifysgol, mae posibilrwydd y gallai amcangyfrifon am gartrefi islaw'r incwm cyfartalog ar lefel isel ddod ar gael mewn blynyddoedd i ddod a chael eu cyfuno mewn amcangyfrifon awdurdodau lleol.

Yn 2005, cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree ei adroddiad, 'Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hwnnw'n cydnabod y diddordeb yn sut mae nifer yr achosion o dlodi yn amrywio ar draws Cymru a chynhwysa wybodaeth sy'n cyfuno gwybodaeth Cymru gyfan ar dlodi incwm gyda data ar lefel awdurdodau lleol ar y niferoedd sy'n hawlio amrywiol fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0929(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Tachwedd 2006**

**At Helen Mary Jones:**

Yn ystod cwestiynau yn y Cynulliad ar 8 Tachwedd, crybwylloch y mater o weithio gydag awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu a chyrff eraill i sicrhau fod y modd y maent yn gweithredu eu cytundebau yn cael dylanwad cadarnhaol ar gyrff gwirfoddol lleol.

Ymgymerais i sicrhau fod hyn yn cael ei ddwyn at sylw'r rhai sydd yn datblygu'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer cynllun y sector wirfoddol.

Mae fy swyddogion wedi dwyn eich sylwadau at sylw Dr Neil Caldwell, sy'n paratoi'r cynllun gweithredu strategol drafft. Mae Dr Caldwell wedi rhoi arwydd fod y mater hwn yn cael ei godi yn y testun ond bydd yn ychwanegu eich sylwadau i'w ffolder o ymatebion i ystyried gwelliannau posib cyn i'r ddogfen fod yn barod ar gyfer ymgynghori.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0929(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 8 Tachwedd 2006**

**At David Melding:**

Yn ystod cwestiynau yn y Cynulliad ar 8 Tachwedd, crybwylloch fel mae ariannu am dair blynedd yn rhan bwysig o sut mae'r sector wirfoddol yn gallu datblygu gwasanaethau mewn ffasiwn resymol, tymor hir.

Fel y dywedais bryd hynny, os ydym yn mynd i ganiatáu i'r sector wirfoddol ddarparu ei wasanaethau ardderchog, mae'n rhaid bod ganddo sicrwydd o ran ariannu. Yr ydym wedi bod yn annog ein partneriaid yn hyn o beth.

Yn ddiweddar, cyhoeddais lythyr ar y cyd gydag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn atgoffa awdurdodau lleol o'u hoblygiadau dan eu cytundebau a thermau'r cod ymarfer ar ariannu, yn cynnwys ariannu am dair blynedd. Fel y gwyddoch, trafodwyd y mater gan gyngor partneriaeth y sector gwirfoddol a gynhaliwyd ym mis Hydref yn ogystal â chynllun gweithredu strategol ar gyfer cynllun y sector wirfoddol ac yn ein hymateb i adolygiad Beecham.

Yn ychwanegol, yn fy nghyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, trafodasom enghreifftiau lle y teimlir nad yw ymddiriedolaethau iechyd a byrddau iechyd lleol yn darparu triniaeth deg a chyfartal i'r sector wirfoddol ac yn gweithredu yn groes i ysbryd cynllun y sector wirfoddol neu god ymarfer ariannu'r sector wirfoddol.

Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ganfasio'u cysylltiadau yn y sector wirfoddol am fanylion o'r fath achosion. Byddaf yn derbyn adroddiad ar hyn cyn hir ac yn bwrw ymlaen gyda'i ganfyddiadau.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1132(EIN) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ar 8 Tachwedd 2006**

**At Kirsty Williams:**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'r sylwadau a wnaethoch yn ystod trafodaeth ar y cwestiwn uchod a godwyd gan Christine Gwyther AC yn y Senedd. Yr oedd mewn perthynas ag annog busnesau Cymru i leihau eu gollyngiadau carbon. Cyfeirioch at sylwadau a wnaed gan y Ffederasiwn Busnesau Bach.

Credaf y gwnaed sylwadau'r ffederasiwn mewn perthynas â dogfen ymgynghorol ddiweddar y panel arbenigol ar reoli adnoddau. Mae adroddiad y panel bron â chael ei orffen a dylai fod ar gael ar ddechrau 2007. Mae'n debygol o bwysleisio fod effeithlonrwydd adnoddau yn fater trawsbynciol sy'n cyfuno egni a deunyddiau a dylai gael ei daclo yn gyfannol ac fel mater carbon isel. Mae'n rhaid inni edrych ar ddeunydd a gwastraff ynghyd fel materion sydd yn gysylltiedig â charbon, gan fod popeth a gynhyrchiwn yn cynnwys egni planedig, a gellir ei leihau drwy fesurau effeithlonrwydd busnes. Bydd argymhellion y panel yn ffurfio sail i'r ail

ran o’r cynllun gweithredu busnes ac amgylchfyd. Mae fy swyddogion yn gweithio ar hwnnw yn awr. Bydd rhwydweithio effeithiol rhwng yr amryw ddarparwyr gwasanaethau yn allweddol i ddwyn argymhellion y panel i ben, a bydd croeso i gyngor ac ymwneud parhaus y ffederasiwn a chyrff tebyg.

O ran ymgysylltu â busnesau bach a chanolig eu maint a’r sector fasnachol, mae’r ffederasiwn wedi codi ffactor a drafodir yn eithaf aml ymhlith materion allweddol busnes a’r amgylchfyd, sef sut ydym yn dosrannu adnoddau prin rhwng busnesau mawr a busnesau llai sydd yn cael effeithiau llai yn unigol, ond gyda’i gilydd, maent hefyd yn cyfrannu at ollyngiadau yn sylweddol. Disgwyliaf i’r mater hwn gael ei godi wrth baratoi cynigion ar gyfer ail gyfnod y cynllun gweithredu busnes ac amgylchfyd, hynny yw, sut i ymgysylltu’n effeithiol â busnesau bach eu maint, tra’n edrych hefyd am y canlyniadau mwyaf yn nhermau gostwng carbon a gwastraff. Yn y cyfamser, mae cyngor ar gael wrth amryw o ddarparwyr gwasanaethau, a gellir cael atynt drwy wefan Llygad Busnes.

Teimla’r ffederasiwn y dylai awdurdodau lleol sicrhau fod cynlluniau fel ailgylchu ar ochr y cwrb am ddim ar gael i fusnesau fel mesur sylfaenol a cham cyntaf i lwyddo i gyrraedd cymhwysedd mewn effeithlonrwydd adnoddau. Cyngor swyddogion yn Adran yr Amgylchfyd, Cynllunio a Chefn Gwlad yw bod casgliadau ar ochr y cwrb mewn gwirionedd yn digwydd mewn rhannau o Gymru, a bydd yn cynyddu’n barhaus. Cadarnheir hyn mewn arolwg o wastraff bwrdeistrefol solet sydd yn dangos fod cynnydd sylweddol yn ailgylchu gwastraff nad yw’n dod o gartrefi, ac mae’r rhan fwyaf o hyn yn wastraff masnachol, o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2005-06, casglodd awdurdodau lleol 152,000 tunnell o wastraff nad oedd yn dod o gartrefi, ac yr oedd y rhan fwyaf o hwnnw yn ailgylchu masnachol.

Mae strategaeth gwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol er mwyn annog awdurdodau lleol i gasglu deunydd eildro wrth fusnesau. Dan Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990, Rhan 11, adran 45(4), mae’n rhaid i awdurdodau lleol adennill costau casglu gwastraff nad yw’n dod o gartrefi drwy godi tâl, os nad ydynt yn ystyried ei fod yn anaddas gwneud hynny yn achos gwastraff masnachol. Mae’r cynllun lwfansau tirlenwi hefyd yn dyrannu 10 y cant o lwfansau ar wastraff nad yw’n dod o gartrefi i annog awdurdodau lleol i beidio â gostwng casgliadau gwastraff masnach. Mae hefyd yn eu hannog i ailgylchu cardiau, papur, gwastraff gwyrdd ac yn y blaen.

Dylech awgrymu fod y ffederasiwn yn cysylltu gyda Glyn Hughes yn yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (ffôn: 029 20825828, neu e-bost: glyn.hughes@wales.gsi.gov.uk) os yw yn dymuno trafod arweiniad ymarferol ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau.